# Llywodraeth Cymru

## Ymateb i'r ymgynghoriad:

Dangosyddion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. "Sut mae mesur cynnydd cenedl?"

### Gwybodaeth am Cyngor ar Bopeth

Elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yw Cyngor ar Bopeth. Mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae yna 19 o aelodau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, pob un yn aelod o Cyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Dau amcan Cyngor ar Bopeth yw:

- rhoi cyngor i bobl ar y problemau sydd ganddynt
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r cyngor a ddarperir gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, â sicrwydd ansawdd, yn gyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb beth bynnag fo'u hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu'u cenedligrwydd.

Mae gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau dros gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU ym maes defnyddwyr.[1] O 1af Ebrill 2014 mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau i gynrychioli defnyddwyr ynni a'r post.

### Cyflwyniad

Mae'n dda gan Gyngor ar Bopeth ymateb i'r Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym yn croesawu uchelgais eang Llywodraeth Cymru i adlunio polisïau a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw yn ymwneud ag anghenion pobl a fydd yn cael eu heffeithio yn y dyfodol.

[1] Ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gynrychioli defnyddwyr o Lais Defnyddwyr at Wasanaeth Cyngor ar Bopeth (gan cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes defnyddwyr. O 1 Ebrill 2014 mae hyn yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol i gynrychioli defnyddwyr post ac ynni.

## Crynodeb o'r ymateb

Rydym yn sylweddoli pa mor anodd yw mynd ati i ddatblygu dangosyddion i fesur a yw Cymru yn gwireddu'r uchelgais. Mae'r dangosyddion drafft yn fan cychwyn addawol sy'n canolbwyntio ar sawl pwnc sydd wedi peri pryder i ni ac i'n cleientiaid ers cryn amser.

Fodd bynnag, credwn fod rhai meysydd allweddol yn absennol, sef:

- gorddyledusrwydd
- gallu ariannol
- tlodi tanwydd
- trafnidiaeth

Felly, rydym yn argymell bod angen **dangosyddion ychwanegol ar ddyledusrwydd a thlodi tanwydd**, yn ogystal â diwygio'r dangosyddion presennol er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith o adrodd ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn anwybyddu'r materion hyn.

Hefyd, mae gennym bryderon sylweddol ynglŷn ag ansawdd rhai o'r ffynonellau data a nodwyd, a sut y bwriedir defnyddio'r setiau data hyn. Yn y cyswllt hwn, rydym yn awgrymu **bod angen gwella'r dangosyddion yn sylweddol.**

Credwn y gallai'r dull gweithredu presennol arwain at nifer o beryglon difrifol:

- creu darlun mwy cadarnhaol (neu negyddol) o'r sefyllfa bresennol drwy ddibynnu gormod ar fesurau goddrychol
- mesur un elfen o brif ddangosydd, a defnyddio'r elfen honno yn amhriodol i fesur y nod cyfan
- 'cyrraedd y targed heb gyflawni'r amcan' drwy greu ysgogiadau i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu gwariant i wella'r data sy'n cael ei fesur gan y dangosydd – ar draul canlyniadau eraill sydd cyn bwysiced.

## Cyfraniad Cyngor ar Bopeth at gyflawni'r nodau llesiant

### Effaith cyngor annibynnol â sicrwydd ansawdd

Y prif bynciau sy'n creu anawsterau i'n cleientiaid yw budd-daliadau a phroblemau yn ymwneud â dyledion. Ers 2011-12, mae problemau yn ymwneud â budd-daliadau wedi bod yn amlwg iawn, ac ar hyn o bryd mae 39% o'n holl achosion yn ymwneud â'r mater hwn. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, cafodd bron i 26,500 o bobl gymorth gyda thros 79,300 o broblemau yn ymwneud â budd-daliadau.

Dyled yw’r ail broblem fwyaf, ac mae’n gyfrifol am 29% o’r holl broblemau. Cafodd dros 13,800 o bobl gymorth ar gyfer dros 58,655 o broblemau yn ymwneud â dyled rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015.

Yn ôl gwaith ymchwil yn ymwneud ag effaith gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a Lloegr, dywedodd 2 o bob 3 chleient fod eu problemau wedi’u datrys ar ôl derbyn cyngor, a nododd 78% o gleientiaid fod ein cyngor wedi helpu i ddatrys eu problemau.

Hefyd, mae’r gwaith ymchwil yn dangos ein bod yn sicrhau canlyniadau ar gyfer cleientiaid sydd â chysylltiad uniongyrchol â’r dangosyddion drafft. Er enghraifft:

- roedd 4 o bob 5 cleient yn teimlo o dan lai o straen, neu’n llai digalon neu bryderus (dangosydd 22)
- roedd gan 1 o bob 2 cleient fwy o reolaeth dros eu cyllid (dangosydd 13)
- roedd sefyllfa tai 1 o bob 4 cleient yn fwy diogel (dangosydd 24)
- roedd bron i 1 o bob 2 cleient yn teimlo bod ei iechyd corfforol wedi gwella (cysylltiadau â dangosyddion 2 a 3)
- roedd gan 1 o bob 5 cleient berthynas well â phobl eraill (cysylltiadau â dangosydd 21)
- mae bron i 1 o bob 5 cleient yn ei chael yn haws gwneud eu gwaith neu ddod o hyd i swydd (dangosyddion 8 a 9).

Felly, credwn y bydd darparu cyngor annibynnol â sicrwydd ansawdd yn parhau i fod yn elfen allweddol o sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer llawer o’r dangosyddion. Hefyd, rydym yn llwyddo i gynyddu incwm pobl yn gyson, ac yn sylweddol mewn nifer o achosion. Rydym wedi helpu pobl i herio diswyddo annheg, a’u helpu i dderbyn tâl diswyddo neu gadw eu swydd. Drwy wneud hyn rydym yn atal problemau fel tlodi posibl ac yn mynd i’r afael â gwahaniaethu, gan gyfrannu at nodau cenedlaethau’r dyfodol.

### Gallu a chadernid ariannol

Mae pwysigrwydd gwella gallu ariannol pobl wedi’i ddangos mewn gwerthusiadau annibynnol o fentrau Cyngor ar Bopeth. Dros y degawd diwethaf mae gwerthusiadau wedi dangos bod y rhaglenni hyn wedi helpu’n gyson i wella hyder a sgiliau pobl ym maes rheoli arian[2]. Hefyd, nodwyd amrywiaeth o fuddion cymdeithasol ehangach sydd â chysylltiadau clir â’r dangosyddion a’r nodau llesiant. Mae’r rhain yn cynnwys lefelau straen is (dangosydd 22), y gallu i gynllunio ar gyfer cyflogaeth (dangosyddion 7 ac 8), y gallu i gynnal tenantiaeth neu forgais (dangosydd 24), mwy

[2] ‘From small change to lasting change: Financial Skills for Life 2002-2012’, Citizens Advice & Prudential (mis Mai 2012)

o hyder fel defnyddiwr (dangosydd 13) a’r gallu i gynorthwyo ffrindiau ac aelodau’r teulu (nod llesiant 2)[3].

Felly, rydym yn dadlau y dylai buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol fod yn ysgogydd cynnydd allweddol o dan Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol, gan arwain at enillion ariannol gwirioneddol ar gyfer aelwydydd unigol a’r economi leol yn sgil yr effaith luosydd o ragor o alw am nwyddau a gwasanaethau.

Drwy sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu derbyn cyngor a gwybodaeth briodol, amserol, annibynnol â sicrwydd ansawdd, yn ogystal ag addysg ariannol ragweithiol, bydd modd helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyngor yn parhau i wneud cyfraniad hanfodol at lesiant pobl, a sicrhau cynnydd ar y dangosyddion.

**Argymhelliad:** Er gwaetha’r cysylltiad clir â chyflawni nodau llesiant Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol, nid ydym yn argymell creu prif ddangosydd penodol ar fynediad i gyngor, neu ar allu ariannol – ac yn cydnabod na fyddai hyn yn cyd-fynd ag adran 2 o’r ddogfen ymgynghori.

Fodd bynnag, o ystyried y ffaith y bydd y dangosyddion yn llywio’r broses o wneud penderfyniadau ar wario ar lefel awdurdod lleol, rydym yn argymell y dylai dogfen y dangosyddion yn ei chyfanrwydd, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, gydnabod swyddogaeth gwasanaethau cyngor annibynnol yn glir.

## Cwestiwn 1: Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod y set o ddangosyddion arfaethedig, yn ei chyfanrwydd, yn asesu’n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant?

Rydym yn anghytuno. Credwn fod y ffynonellau a nodwyd o dan rai o’r dangosyddion yn rhy gyfyng, ac **ni allant gynrychioli yn rhesymol y prif nod sy’n cael ei fonitro**.

Hefyd, rydym yn pryderu bod dibynnu gormod ar fesurau llesiant goddrychol yn arwain at **y perygl o greu darlun mwy cadarnhaol na’r sefyllfa sy’n bodoli yn wrthrychol**. Felly, rydym yn argymell bod angen defnyddio **setiau data mwy amrywiol** er mwyn creu darlun mwy holistaidd a llywio penderfyniadau yn well.

Hefyd, credwn fod **ffynonellau’r data ar dai sydd ar gael ar hyn o bryd yn annigonol**, ac yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru **fuddsoddi mewn arolwg mwy cynhwysfawr o gyflwr tai** yng Nghymru. Byddai hyn yn arwain at fanteision ychwanegol yn ogystal â llywio dangosyddion Cenedlaethau’r Dyfodol.

[3] Ibid

## Dadansoddi ffynonellau data mwy amrywiol

Mae 14 o’r 40 o ddangosyddion drafft yn defnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru fel y brif ffynhonnell data, neu’r unig ffynhonnell data, yn sylfaen i’r dangosydd. Cryfderau’r Arolwg hwn yw’r ffaith ei fod yn defnyddio sampl fawr o tua 14,000 o ymatebwyr bob blwyddyn, y meysydd eang sy’n cael eu cynnwys, a’r ffaith ei fod yn gofyn cwestiynau goddrychol ynglŷn â chanfyddiad ymatebwyr o’u sefyllfa - mae dangos ‘canlyniadau meddal’ yn bwysig.

Fodd bynnag, ni chredwn fod yr Arolwg Cenedlaethol yn ddigonol fel unig ffynhonnell data ar gyfer gwaith monitro pwysig fel hyn, yn enwedig os yw’n mynd i lywio penderfyniadau cyllidol. Rydym yn cefnogi’r defnydd o setiau data goddrychol i fesur canlyniadau meddal, ond rydym yn annog Llywodraeth Cymru i’w dadansoddi ochr yn ochr â dulliau gwrthrychol, meintiol o fesur canlyniadau caled. Mae hyn yn helpu i osgoi sefyllfaoedd lle nad yw ymatebwyr ‘yn gwybod yr hyn nad ydynt yn ei wybod’, neu sefyllfaoedd lle mae ‘diffyg disgwyliadau’. Mae hyn yn arwain at y perygl o ddod i gasgliad mwy cadarnhaol na’r hyn sy’n wir yn wrthrychol. O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod ymatebion yn llai defnyddiol ar gyfer llywio penderfyniadau ar wario a llunio polisïau yn y dyfodol.

Gwendid arall yr Arolwg Cenedlaethol yw’r ffaith nad yw’n ystyried safbwyntiau pobl sy’n agored i niwed yn ddigonol, er enghraifft pobl sydd mewn llety â chymorth, yn cysgu ar y stryd neu mewn gofal preswyl. O ystyried pwyslais y dangosyddion ar ddigartrefedd, unigrwydd a’r gallu i gyfranogi, byddai’n esgeulus eithrio unigolion sy’n agored i niwed o’r brif ffynhonnell ar gyfer y dangosyddion.

### Enghreifftiau

Dangosydd 15: credwn fod mesur bodlonrwydd goddrychol pobl â’r ardal y maent yn byw ynddi yn gwbl briodol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y dangosyddion yn llywio penderfyniadau gwario, dylent fonitro argaeledd cyfleusterau neu wasanaethau allweddol ym mhob awdurdod lleol hefyd. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o bobl yn ‘hoffi cael’ toiledau cyhoeddus, ond maent yn hanfodol bwysig i bobl sydd ag anghenion penodol.

Hefyd, er mwyn ategu mesurau goddrychol yr Arolwg Cenedlaethol, rydym yn argymell y dylai dangosydd 17 yn ymwneud â phenderfyniadau lleol gynnwys mesurau gwrthrychol fel y ganran a bleidleisiodd, ymatebion i ymgynghoriadau, neu nifer y deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd, byddai’n well gennym weld mesur sy’n asesu a yw pobl yn teimlo bod unrhyw gyfranogiad wedi cael effaith. Mae hyn yn osgoi mesuriadau ticio bocsys fel 'mynychodd 40 o bobl ein digwyddiad ymgynghori', sy’n arwain at y perygl o ddiystyru mewnbwn pobl.

Hefyd, mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu olrhain unrhyw ganfyddiadau sy'n gwrthdaro rhwng ffynonellau data, fel a yw'r arolwg yn adlewyrchu mwy o foddhad o ran cyfrannu at benderfyniadau na'r hyn a ddangosir gan lefel y cyfranogiad.

### Cyfyngiadau data presennol

Nodwyd data'r Arolwg Cenedlaethol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Adran Gwaith a Phensiynau sawl gwaith fel ffynonellau data, er nad ydynt wedi'u cynllunio'n benodol i ddangos cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn. Felly, mae mynd ati i ddefnyddio'r data hwn yn unig i fesur y prif ddangosyddion llesiant yn arwain at y perygl o ddod i gasgliadau camarweiniol.

Er enghraifft, ar gyfer dangosydd 23 ar ansawdd tai, y cynnig yw defnyddio set ddata a fyddai ond yn adlewyrchu profiadau tenantiaid y sector tai rhent preifat yn bennaf, ac sydd ond yn cynnwys un agwedd ar 'ansawdd tai'. Rydym yn ystyried y mater hwn yn fanylach o dan Gwestiwn 8, ond mae'n dangos cyfyngiadau defnyddio un ffynhonnell data sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad:** Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli, a ffynonellau mwy amrywiol, a'u dadansoddi ochr yn ochr â'r ffynonellau arfaethedig presennol er mwyn llunio adroddiadau cyfanredol ar bob dangosydd. Rydym yn pwysleisio nad ydym yn gofyn am greu llawer o setiau data newydd i gefnogi pob dangosydd.

## Creu data cynhwysfawr ar gyflwr tai

Mae'r setiau data ar dai sydd ar gael ar hyn o bryd yn tueddu i ddeillio o'r cyhoedd yn rhoi gwybod am broblemau, data o arolygon cenedlaethol sy'n oddrychol ac yn arwynebol, neu waith modelu a rhagamcanu. Er bod yr holl ddata hwn yn ddefnyddiol, mae'n gallu ystumio'r darlun gwirioneddol, ac nid yw'n sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu ar sail Cymru gyfan os nad ydym yn gwybod er sicrwydd ble mae angen rhoi ymyraethau ar waith.

Mae Cyngor ar Bopeth eisoes wedi gofyn am gynnal arolwg rheolaidd, cynhwysfawr o gyflwr tai sy'n ystyried cyflwr pob anheddiad yng Nghymru. Dylai arolwg o'r fath gynnwys amrywiaeth eang o faterion tai, fel peryglon, lleithder, defnyddio ynni'n effeithlon ac addasu cartrefi ar gyfer pobl anabl.

Mae hyn yn darparu mwy o wybodaeth am fanteision tai da cysylltiedig, fel gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Hefyd, mae'n helpu i olrhain effaith negyddol bosibl tai o ansawdd gwael, fel yr effeithiau a nodwyd yn adroddiad Shelter Lloegr ar

iechyd ac amodau byw gwael[4], neu yn adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar asthma[5].

**Argymhelliad:** Datblygu Arolwg o Gyflwr Tai cynhwysfawr ar gyfer Cymru, ar sail dreigl, sy'n asesu cyflwr y stoc tai mewn eiddo unigol. Gallai'r adnodd hwn lywio dangosydd tai mwy holistaidd, a fydd yn fwy defnyddiol ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau ar sut i fanteisio ar eu hadnoddau cyfyngedig i wella'r stoc tai, gan wella amodau byw pobl Cymru.

## Cwestiwn 2: A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig y gellir eu gwella yn eich tyb chi?

## Dangosydd 12: 'Pobl sy'n byw mewn tlodi' a Dangosydd 13: 'Pobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gwasanaethau pob dydd'

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi'n gryf y pwyslais ar dlodi a fforddiadwyedd yn y ddau ddangosydd uchod, ac rydym yn eu hystyried gyda'i gilydd am eu bod yn gysylltiedig yn ein barn ni. Gellid dadlau o blaid eu cyfuno mewn un dangosydd holistaidd ar dlodi, os oes dymuniad cryf i leihau nifer y dangosyddion.

Yr hyn sy'n bwysicach i ni yw sicrhau bod **y dystiolaeth ar gyfer unrhyw ddangosydd/dangosyddion ar dlodi yn cael ei chynllunio i greu darlun holistaidd.** Nid ydym yn credu y bydd y sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei hargymell ar hyn o bryd yn cyflawni hyn. Gall setiau data cyfyng fethu â llywio penderfyniadau yn ddigonol, neu arwain at hyrwyddo gwariant sy'n 'cyrraedd y targed heb gyflawni'r amcan'.

### Casglu dulliau mesurau tlodi caled a meddal

Er bod tlodi incwm cymharol yn bwysig, mae yna berygl na fyddwn yn cael y darlun llawn drwy dim ond atgynhyrchu data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar nifer yr aelwydydd sydd ag incwm sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (dangosydd 12). Mae Cyngor ar Bopeth, a nifer o sefydliadau partner eraill sy'n ymwneud â'r agenda trechu tlodi, wedi dadlau'n gyson nad yw tlodi yn ymwneud ag incwm yn unig. Yn hytrach, mae'n cynnwys costau byw, profiadau bywyd ac amddifadedd materol – sy'n gysylltiedig â dangosyddion eraill, e.e. 13, 25 a 27 a materion fforddiadwyedd.

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth fwy holistaidd hon o dlodi, ond o dan y dangosydd arfaethedig, mae yna berygl y byddwn yn dychwelyd at ddiffiniad cyfyng o dlodi. Felly, rydym yn cefnogi defnyddio data'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer dangosydd 13, i roi darlun

[4] Shelter: People living in bad housing – numbers and health impacts (2013)
[5] Iechyd Cyhoeddus Cymru: Poor housing conditions and asthma (2013)

mwy goddrychol o amddifadedd materol, ond nid fel yr unig ffynhonnell. Dylai'r data hwn gael ei ddadansoddi ochr yn ochr â data diriaethol ar gostau hanfodol bob dydd aelwydydd.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi dulliau goddrychol o fesur costau aelwydydd ochr yn ochr â data ar incwm a data llesiant goddrychol er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o dlodi yng Nghymru.

Gallai hyn gynnwys data sydd eisoes yn bodoli ar y canlynol:

- costau morgeisi a rhent – gan ddefnyddio ffynonellau fel Rhenti blynyddol yn y Sector Preifat a'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi
- lefelau tlodi tanwydd – ar sail modelau presennol a dadansoddiad o dueddiadau incwm ochr yn ochr â'n Harolwg arfaethedig newydd o Gyflwr Tai yng Nghymru
- adroddiadau goddrychol ar fforddiadwyedd ad-dalu dyledion aelwydydd
- cost 'basged nwyddau' mynegai prisiau manwerthu a mynegai prisiau defnyddwyr
- tueddiadau o ran cost biliau ynni a dŵr
- tueddiadau o ran lefelau'r dreth gyngor
- biliau pob dydd mwy 'dewisol'; e.e. ffôn symudol, band eang, trwydded teledu

**Argymhelliad:** Er mwyn cyflwyno darlun cywir o raddfa allgau ariannol yng Nghymru, bydd angen gwneud gwaith ymchwil parhaus sy'n gynrychioladol ar lefel genedlaethol i helpu i olrhain cynnydd. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth a defnydd o gynhyrchion ariannol gwahanol, yn ogystal â sgiliau a lefelau hyder wrth ymdrin â materion ariannol. Eto, gallai'r wybodaeth hon gael ei chwmpasu yn yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei drafod yn fanylach yn ein hymateb i strategaeth diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant ariannol.

## Dangosydd 30: 'Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau'

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r ffaith fod y dangosydd hwn wedi'i gynnwys ond credwn fod angen y canlynol:

- amcanion gwahanol ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau sydd eisoes yn bodoli
- ffynonellau data gwell ar gyfer y dangosydd hwn
- ystyried effeithlonrwydd ynni'r seilwaith trafnidiaeth yn ogystal ag adeiladau

### Hen eiddo neu eiddo newydd?

Yn ogystal, rydym yn argymell y dylid ystyried statws Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) eiddo newydd ac eiddo sydd eisoes yn bodoli, gan osod targed dangosydd EPC uwch ar gyfer eiddo newydd.

Mae stoc tai Cymru wedi bod yn wael yn hanesyddol, ac mae arian sylweddol wedi'i fuddsoddi er mwyn gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo er mwyn gwella ei statws EPC (yr enw am hyn yw 'ôl-osod'). Fodd bynnag, gall ôl-osod fod yn ddrud, ac mae'n heriol o safbwynt ymgysylltu â defnyddwyr - nid yw pawb wedi'u hargyhoeddi bod y manteision yn rhagori ar yr anghyfleustra a'r risg. Hefyd, nid yw gosod mesurau yn gost-effeithiol mewn eiddo sy'n anodd iawn i'w drin. O ganlyniad, mae elfen benodol o stoc tai presennol Cymru yn annhebygol o ennill y statws EPC uchaf.

Mewn cyferbyniad, gall eiddo newydd sy'n cael ei adeiladu yn unol â safonau Passivhaus neu safonau tebyg fod yn hynod effeithlon o ran ynni, a bydd ôl troed carbon yr eiddo yn isel gydol ei oes. Felly, dylem fod yn fwy uchelgeisiol wrth bennu nodau ar gyfer eiddo newydd nag ar gyfer eiddo sydd eisoes yn bodoli.

Drwy fonitro cyfran yr eiddo newydd sy'n bodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni uchaf byddwn yn gwybod a ydym ar y trywydd iawn o safbwynt seilwaith adeiledig Cymru. Hefyd, bydd yn bwysig o hyd olrhain cynnydd ar fynd i'r afael â phroblemau effeithlonrwydd ynni sydd wedi'u hetifeddu drwy ddulliau ôl-osod (ond rydym yn cydnabod nad monitro polisïau Llywodraeth Cymru heddiw neu yfory yw bwriad dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn y pen draw, dau faes cynnydd ar wahân yw'r meysydd hyn, ac ni ddylid eu cyfuno.

### Ansawdd ac argaeledd data EPC

Mae'r ymgynghoriad yn ymddangos braidd yn amwys ynglŷn ag ai 'data gweinyddu'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)' a ddylai fod yn ffynhonnell y data, gan ei fod yn cynnwys yr amod 'oni bai bod ffynonellau data mwy priodol yn cael eu datblygu yn y dyfodol'. Byddem yn croesawu rhywfaint o eglurhad ynglŷn â nodweddion ffynhonnell fwy priodol ym marn Llywodraeth Cymru, ac a yw'n ystyried buddsoddi mewn datblygu ffynhonnell o'r fath. Rydym yn dadlau'n gryf bod angen ffynhonnell well, gan gyfeirio yn ôl at ein hargymhelliad i gynnal Arolwg o Gyflwr Tai yng Nghymru o dan Gwestiwn 1fel dull amgen posibl.

Er bod EPC yn fesur teg o effeithlonrwydd ynni eiddo, nid yw mor gywir â gwybodaeth biliau ynni. Fodd bynnag, mae data EPC yng Nghymru yn fwy tebygol o fod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau tai rhent preifat a thai cymdeithasol nag ar gyfer eiddo domestig dan berchen feddiannaeth, neu adeiladau masnachol – oni bai eu bod wedi newid dwylo yn ddiweddar. Byddai'n fanteisiol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn data EPC mwy cynhwysfawr (neu unrhyw ddata cyfwerth o'r Arolwg Cyflwr Tai arfaethedig) sy'n berthnasol i Gymru gyfan, yn hytrach na dibynnu ar

wybodaeth anghyflawn awdurdodau lleol, sydd ond yn berthnasol i rannau penodol o'r farchnad dai o bosibl.

### Seilwaith trafnidiaeth ac effeithlonrwydd ynni

Rhan o fwriad arfaethedig y dangosydd hwn yw monitro 'effeithlonrwydd adnoddau seilwaith' o dan nod llesiant 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-eang', sy'n ystyried allyriadau carbon. Mae'n werth nodi nad adeiladau yw'r unig ran o seilwaith Cymru sy'n cyfrannu at newid hinsawdd, ac rydym yn sylwi nad yw'r dangosydd hwn yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth.

Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys effeithlonrwydd ynni seilwaith trafnidiaeth yn y dangosyddion. Rydym eisoes wedi ymateb i'r ymgynghoriadau ar y Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ddrafft ar gyfer Cymru, ac roedd ein hymateb yn nodi pwysigrwydd seilwaith ar gyfer cerbydau trydan. Yn ogystal â bod yn elfen allweddol o'r broses o ddatgarboneiddio trafnidiaeth, mae'r seilwaith hon yn gwneud cyfraniad hanfodol at storio ynni a symud tuag at gymysgedd cynhyrchu ynni glanach. Felly, mae'r ffaith nad yw trafnidiaeth wedi'i chynnwys yn y dangosydd hwn yn peri pryder sylweddol.

Rydym yn cefnogi cynnwys dangosydd ychwanegol, ehangach ar drafnidiaeth gynaliadwy, integredig, gan nad oes dangosydd o'r fath yn ymddangos yn y rhestr. Rydym yn rhagweld y bydd sefydliadau sydd â diddordeb mewn trafnidiaeth yn dadlau'n gryf o blaid dangosydd o'r fath, ond rydym yn gyfarwydd iawn â materion yn ymwneud â mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus integredig ar gyfer pobl mewn tlodi a'r rhai sydd mewn perygl o arwahanrwydd cymdeithasol er mwyn cael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau sy'n diogelu eu llesiant. Yn ôl data Cyfrifiad 2011, nid oes gan 23% o holl aelwydydd Cymru fynediad i gar neu fan. Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogaeth, diwylliannol a chymdeithasol ar gael i holl ddinasyddion Cymru, mae'n hanfodol bod trafnidiaeth gyhoeddus addas ar gael.

**Argymhelliad:** Dylid cynnwys metrig ar effeithlonrwydd ynni seilwaith trafnidiaeth Cymru naill ai fel rhan o ddangosydd 30, neu mewn dangosydd newydd ar drafnidiaeth.

Gallai data presennol ar y canlynol fod yn sylfaen i'r cyfryw ddangosydd:

- defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth breifat
- perfformiad ynni cerbydau
- y mathau o danwydd sy'n cael eu defnyddio gan gerbydau
- argaeledd seilwaith i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan
- cysylltiadau rheilffordd rhwng ardaloedd gwahanol o Gymru
- teithiau awyr

## Cwestiwn 3: A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig na ddylid eu cynnwys yn eich tyb chi?

Mae pob un o'r dangosyddion yn y ddogfen yn ymwneud â meysydd sy'n bwysig ac yn berthnasol i'r prif nodau llesiant. Felly, nid ydym yn credu bod angen hepgor unrhyw ddangosydd ar sail diffyg teilyngdod.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na ddylid cynnwys gormod o ddangosyddion, a gan ein bod wedi cynnig dangosyddion ychwanegol uchod, rydym yn awgrymu bod modd uno neu gyfuno'r dangosyddion canlynol o bosibl:

- Dangosyddion 12 a 13: 'Pobl sy'n byw mewn tlodi' a 'Phobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gwasanaethau pob dydd' (fel y nodwyd uchod).
- Dangosyddion 16 a 17: 'Naws cymuned' a 'Phobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol'
- Gellid cyfuno dangosydd 39, 'Dinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang' â dangosydd 18 ar wirfoddoli neu ddangosydd 40 ar gyfrifoldebau rhyngwladol.

## Cwestiwn 4: A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi?

Rydym yn cynnig dau ddangosydd ychwanegol, ar orddyledusrwydd a thlodi tanwydd.

### Gorddyledusrwydd

Ar hyn o bryd, dyled yw'r ail broblem fwyaf sy'n gofidio cleientiaid gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru. Yn ystod 2014-15, cafodd dros 29,700 o gleientiaid gymorth ar gyfer dros 125,200 o broblemau yn ymwneud â dyled, sef cynnydd o 19% o gymharu â 2013-14. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at ddiwedd mis Medi 2015) rydym wedi cynorthwyo dros 13,800 o bobl â thros 58,655 o broblemau yn ymwneud â dyled, gostyngiad bach (-2%) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014.

Yn ôl arolwg YouGov 2014 ar ran Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru,[6] dim ond tua thraean o oedolion Cymru (36%) sy'n llwyddo i dalu eu holl filiau a chwblhau eu holl ymrwymiadau credyd heb unrhyw anhawster – ac roedd y gyfran hon yn is (1 o bob 4 neu 26%) ar gyfer y rhai sy'n perthyn i'r grŵp cymdeithasol C2DE. Dywedodd dros un o bob pump (22%) eu bod yn llwyddo i gwblhau'r taliadau ond ei

[6] Arolwg ar-lein YouGov. Cyfanswm y sampl oedd 1,003 o oedolion. Cwblhawyd y gwaith maes rhwng 23 a 26 Gorffennaf 2014. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18 oed a throsodd).

bod yn anodd iddynt wneud hynny neu eu bod ar ei hôl hi gyda rhai taliadau. Hefyd, dangosodd arolwg diweddar gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol fod 1 o bob 5 person yng Nghymru yn wynebu ‘gorddyledusrwydd’[7].

Hefyd, mae natur y problemau yn ymwneud â dyled sy’n cael eu cyflwyno i ganolfannau Cyngor ar Bopeth wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod llawer o’r achosion yn ymwneud â chredyd defnyddwyr o hyd, mae mwy o gleientiaid yn dod atom bellach i ofyn am gyngor ar dalu biliau’r aelwyd, gan gynnwys cynnydd o 51% mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor.

Waeth pa mor alluog yn ariannol yw unigolyn, bydd dyledion yn effeithio ar ei allu i ymdopi, a gall gael effaith niweidiol ar lawer o’r dangosyddion eraill gan gynnwys iechyd a llesiant. Hefyd, gall gorddyledusrwydd fod yn symptom o faterion ehangach fel arferion benthyca anghyfrifol, newidiadau mewn costau byw, incwm annigonol, a chostau cyfleustodau neu renti na all pobl eu fforddio. Mae’r rhan fwyaf o ddangosyddion yn ymwneud â gwytnwch yn gysylltiedig â phryderon amgylcheddol yn bennaf, ac rydym yn awyddus i weld gwytnwch ariannol yn cael ei fesur yn fwy eglur.

**Argymhelliad:** Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn argymell y dylid cynnwys dangosydd ychwanegol ar orddyledusrwydd. Gallai Arolwg Cenedlaethol Cymru fonitro’r dangosydd hwn gan ddefnyddio methodoleg debyg i *Financial Capability Survey for Wales* (2015) y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a nodwyd uchod. Er mwyn asesu gorddyledusrwydd unigolion, gofynnodd yr arolwg hwn gwestiynau am allu pobl i reoli eu dyledion, ac am nifer y biliau a’r ymrwymiadau credyd nad oedd yr ymatebydd wedi llwyddo i’w talu’n llawn.

Felly, dylai’r gwasanaeth hwn lywio camau gweithredu i helpu pobl i osgoi neu reoli dyledion, ymateb i’r angen am gyngor ar ddyledion, nodi patrymau o fenthyca rheibus, a sicrhau nad yw benthyca gormod yn cuddio problemau ehangach y mae pobl yn eu hwynebu o bosibl. Rydym yn gwybod bod cydweithio agos rhwng Cyngor ar Bopeth a thimau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd meddwl cymunedol a rhyddhau cleifion o’r ysbyty wedi llwyddo i arbed arian cyhoeddus. Er enghraifft, cafodd Cyngor ar Bopeth Ceredigion gyllid tymor byr i sefydlogi’r argyfwng dyled/ cyllidebu/ tai/ cyflogaeth. Cwblhaodd y tîm gwaith cymdeithasol ddadansoddiad cost a budd o’r dull gweithredu hwn: amser gweithwyr cymdeithasol a gafodd ei arbed, a nifer yr achosion gofal a gafodd eu hosgoi. Mae hyn yn dangos bod tlodi yn gallu bod yn ysgogydd ac yn symptom o ‘broblemau’ cymdeithasol amrywiol.

[7] Diffiniad gorddyledusrwydd yw ‘feeling debt is a heavy burden or missing three or more payments on bills or credit commitments’. *Financial Capability Survey for Wales* (2015) y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

## Tlodi Tanwydd

Fel un o gydgysylltwyr Clymblaid Tlodi Tanwydd Cymru, hoffem ailadrodd pryderon a fynegwyd ym maniffesto'r glymblaid *Ending Wales' Cold Homes Crisis* ynglŷn ag ansawdd gwaith monitro tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae hepgor tlodi tanwydd o'r dangosyddion pwysig newydd yn gwaethygu'r sefyllfa.

Mae'r ffigurau presennol ar gyfer tlodi tanwydd yng Nghymru yn seiliedig ar amcanestyniadau data arolwg *Byw yng Nghymru* 2008, yn hytrach nag ar fonitro uniongyrchol o lefelau tlodi tanwydd, neu ddata cadarn ar y stoc tai. Mae tlodi tanwydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dangosyddion llesiant eraill, fel effeithlonrwydd ynni adeiladau, iechyd, fforddiadwyedd nwyddau pob dydd, ac wrth gwrs tlodi cymharol ei hun. Hefyd, mae'n ffactor pwysig mewn llawer o broblemau ariannol ein cleientiaid, ac yn faes y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithredu yn ei gylch yn y dyfodol yn ein barn ni.

Hefyd, mae'r glymblaid wedi galw am darged tlodi tanwydd newydd i ddisodli'r targed sy'n dod i ben yn 2018. Gan ei bod yn annhebygol y bydd y targed blaenorol yn cael ei gyrraedd, mae angen i'r targed newydd fod yn seiliedig ar ddarpariaeth, a cheisio ysgogi a llywio penderfyniadau gwario. Felly, byddai'n gwneud synnwyr cynnwys y targed hwn ochr yn ochr â'r dangosyddion llesiant, fel nad yw'n cael ei ddiystyru mewn penderfyniadau gwario sy'n cael eu hysgogi gan adroddiadau ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad:** Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn argymell y dylai lefelau tlodi tanwydd gael eu cynnwys fel dangosydd. Yn ddelfrydol, dylai ffynhonnell y data hwn fod yn set ddata newydd sy'n seiliedig yn rhannol ar yr Arolwg o Gyflwr Tai a gafodd ei gynnig gennym o dan Gwestiwn 1, yn ogystal ag ar wybodaeth am brisiau ynni, data'r arolwg cenedlaethol, a gwaith monitro lleol o lefelau tlodi tanwydd ar draws deiliadaethau tai.

Byddem yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyn.

## Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fesur cartrefi sydd heb beryglon fel dangosydd ar gyfer ansawdd tai (dangosydd 23)?

Rydym yn anghytuno. Nid ydym yn cefnogi'r dull adrodd presennol gan na fydd yn mesur ansawdd cartrefi Cymru yn effeithiol yn ein barn ni.

Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar ddata blynyddol ar Beryglon a Thrwyddedau Tai sy'n annhebygol o adlewyrchu cyflwr gwirioneddol tai yng Nghymru, gan fod y broses o gasglu'r data hwn yn seiliedig ar wybodaeth gan y cyhoedd. Mae perchen-feddianwyr yn annhebygol o roi gwybod i'r awdurdod lleol am beryglon yn

eu cartrefi eu hunain. Yn yr un modd, bydd pobl sy’n byw mewn tai cymdeithasol yn rhoi gwybod i’w landlord am unrhyw broblemau, yn hytrach nag i’r awdurdod lleol. Hefyd, mae Safonau Ansawdd Tai Cymru yn berthnasol i dai cymdeithasol, ac mae’r safonau hyn yn cael eu monitro.

Eiddo yn y sector rhentu preifat yw’r unig eiddo sy’n debygol o gael ei nodi gan y dull hwn, wrth i bobl sy’n rhentu eiddo roi gwybod am broblemau. Rydym yn gwybod nad yw peryglon yn cael eu hadrodd yn ddigonol, a bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi’u lleihau’n sylweddol yng Nghymru yn sgil nifer o doriadau bach ond cyson i lywodraeth leol o dan y mesurau cyni (fel y nodwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar). Felly, mae Cyngor ar Bopeth yn credu y gall y data hwn arwain at gasgliadau sy’n nodi nifer yr adeiladau peryglus yn anghywir.

Mae’r Cenhedloedd Unedig wedi pwysleisio na ddylid dehongli’r hawl i dai digonol mewn ffordd sy’n rhy gul, ac mae wedi darparu gwybodaeth am y rhyddid a’r hawliau sy’n deillio o’r hawl hon[8]. Nid ydym am weld Cymru yn mabwysiadu diffiniad sy’n rhy gul, ar sail un ffynhonnell data yn unig.

**Argymhelliad:** Credwn y byddai ein hargymhelliad o dan Gwestiwn 1 ynglŷn â’r angen am arolwg rheolaidd o gyflwr tai yng Nghymru yn ffynhonnell data fwy cadarn ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag, byddai modd cynnwys data ar Beryglon Tai fel rhan o ddata mwy holistaidd yn ein barn ni.

## Cwestiwn 9: Ydych chi’n meddwl y dylai Dangosydd 24 fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na’r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref?

Rydym yn pryderu y bydd ‘lefelau digartrefedd’ yn cael eu mesur yn rhy gul. Nid yw’r wybodaeth yn nodi’n glir sut y bydd y mesur yn llwyddo i addasu ar gyfer cyfrif aelwydydd unigol ddwywaith. Gan fod awdurdodau lleol yn mesur canlyniadau bellach, gall un aelwyd fod â nifer o ganlyniadau.

Ni fydd y mesur yn dangos lefel wirioneddol digartrefedd yng Nghymru gan nad yw’n cynnwys pobl sy’n cysgu ar y stryd, nac eraill sydd wedi’u disgrifio’n ‘ddigartref yn fwriadol’, fel pobl ifanc sydd wedi ffraeo â’u teuluoedd ac sy’n cysgu ar soffas eu ffrindiau.

Mae pobl sy’n cysgu ar y stryd yn llai tebygol o ofyn i wasanaethau dewisiadau tai’r awdurdod lleol am gymorth, ac mae’r rhai sy’n gwneud hynny yn fwy tebygol o gael

---

[8] UN: The Right to Adequate Housing
http://www.ohchr.org/Documents/Publications/FS21_rev_1_Housing_en.pdf

eu disgrifio'n 'ddigartref yn fwriadol' ac felly'n anghymwys i dderbyn mathau penodol o gymorth. Felly, er eu bod ymysg y bobl ddigartref fwyaf agored i niwed, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y system ac ni fyddant yn cael eu cyfrif o dan y mesur arfaethedig.

Ni chredwn y bydd y dull hwn o fesur data yn cofnodi llwyddiannau'r agenda atal digartrefedd chwaith, gan na fyddai'n monitro pobl sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref. Fel dangosydd gwytnwch, mae'n bosibl na fydd yn nodi'r perygl o ddigartrefedd y mae aelwydydd yn ei wynebu yn ddigon cadarn.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y ffynonellau data ar gyfer y dangosydd hwn er mwyn cyfrif nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref ac yn gofyn am gymorth – yn hytrach na'r rhai sydd wedi cymhwyso ar gyfer cymorth. Hefyd, dylai'r ffynhonnell ystyried y gwaith atal digartrefedd sy'n mynd rhagddo o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

---------------------------------------------

**Am wybodaeth bellach neu unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag:**

Andrew Regan
Rheolwr Polisi
Cyngor ar Bopeth Cymru
andrew.regan@citizensadvice.org.uk